# Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

## Canllawiau Grantiau Busnes

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. Hefyd mae'n ddoeth edrych ar y nodiadau hyn yn ystod y broses ymgeisio.

**Llenwch ffurflen ymholiad Cronfa Busnes Fferm Wynt Coedwig Clocaenog cyn llenwi neu gyflwyno cais.**

Am ragor o gymorth neu gyngor, cysylltwch â:


| | | |
|---|---|---|
| **Esyllt Adair** | **01492 523855** | **e-bost: esylltadair@cvsc.org.uk** |
| **Marian Jones** | **01492 523854** | **e-bost: marianjones@cvsc.org.uk** |


### Beth yw Cronfa Buddsoddiad Cymunedol Clocaenog?

Mae Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn brosiect fferm wynt ar y tir ac yn berchen i RWE. Fe'i hadeiladwyd ar dir a brydlesir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gan y prosiect 96MW, ger Dinbych 27 tyrbin gwynt yn y goedwig sydd hefo'r capasiti i gynhyrchu trydan i oddeutu 63,800 o dai yn y DU yn flynyddol[1].

Fel rhan o'r prosiect mi fydd buddsoddiad o £19 miliwn dros gyfnod o 25 mlynedd i ardaloedd sydd o fewn yr ardal budd o fewn siroedd Conwy a Dinbych.

Lansiwyd y cynllun yn Hydref 2020 ac mae'n cael ei reoli'n annibynnol gan CGGC. Asesir ceisiadau'r gronfa gan banel lleol yn chwarterol. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol o'r ddwy sir ac arbenigwyr annibynnol.

[1] Mae ynni y rhagwelir y bydd yn cael ei gynhyrchu yn deillio o gyflymder gwynt a gaiff ei fonitro yn yr ardal leol ac ynhgyd â data tywydd hanesyddol gan ddefnyddio modelau meteoroleg gyda data a gafwyd o systemau mesur lloeren, ar yr arwyneb ac a gludir mewn awyren. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar gapasiti wedi'i osod o 96MW. Mae cartrefi cyfatebol a gyflenwir yn seiliedig ar ddefnydd blynyddol o drydan fesul cartref o 4100 kWh. Cefnogir y ffigur hwn gan ddata diweddar ar ddefnyddio trydan domestig sydd ar gael gan The Digest of UK Energy Statistics a ffigurau aelwydydd gan Awdurdod Ystadegau Gwladol y DU.

Cymorth Cymunedol Gwirfoddol Conwy
Community Voluntary Support Conwy

## Cyllid sydd ar gael:







## Themâu: Bydd angen i bob prosiect gyflawni o leiaf un or 5 thema

Mae'r themâu yma yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

### Thema 1: Cymunedau Ffyniannus

- Dod a chymunedau ynghyd
- Gwella cyfleusterau cymunedol
- Dathlu diwylliant a threftadaeth ein cymunedau

### Thema 2: Iechyd a Lles

- Cefnogi a gwella gofal cymdeithasol yn ein cymunedau gweldig
- Lleihau tlodi, unigrwydd a theimlad ynysig
- Gwella gwasnaethau trafnidiaeth yn yr ardal
- Chwaraeon a hamdden

### Thema 3: Yr Economi

- Creu swyddi a chefnogaeth fusnes
- Hyfforddiant ac addysg
- Twristiaeth
- Diwydiant Awyr Agored
- Arallgyfeirio ffermio

### Thema 4: Cadwraeth ar Amgylchedd

- Gwarchod harddwch naturiol yr ardal
- Bywyd gwyllt
- Creu mannau gwyrdd
- Cadwraeth treftadaeth

**Thema 5: Digidol**

- Band eang
- Rhwydwaith cellog
- Datbygu sgiliau digidol trwy ddelweddau digidol, apiau, ffilm
- Cynhwysiant digdiol

**Themâu trawsbynciol:**

Bydd angen i bob ymgeisydd ystyried cynifer o'r themâu canlynol ag y gallant wrth gyflawni eu prosiect:

- Effaith Amgylcheddol
- Yr Iaith Gymraeg
- Pobl Ifanc
- Datblygiad Economaidd
- Cyfleoedd cyfartal

## Pwy sy'n gymwys?

- Busnes Cofrestredig gyda Chyllid a Thollau EM neu Dŷ'r Cwmnïau
- 'Start up's'
- Busnesau presennol
- Busnesau sy'n masnachu o fewn ardal budd Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, a'u prif gyfeiriad wedi ei nodi o fewn ardal budd.
- Bydd angen i fusnesau fod yn gweithredu yn yr ardal am o leiaf 5 mlynedd ar ôl darparu cyllid (gweler gwybodaeth ychwanegol isod).
- Busnes sydd wedi derbyn argymhelliad gan Gynghorydd Busnes cymeradwy e.e. Busnes Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Mentera

## Eithriadau

Ni fydd y canlynol yn gymwys:

- Busnesau â'u prif gyfeiriad y tu allan i'r maes budd
- Prosiectau crefyddol eu ffocws, prosiectau sy'n cefnogi ymgyrch neu achos gan blaid wleidyddol, neu brosiectau a fydd yn dwyn anfri ar y cyllid neu'r cyllidwr
- Ni ariennir Cerbydau a threlars oni bai bod amgylchiadau eithriadol (cysylltwch â gweinyddwr y grant am eglurhad)
- Cyllid am yn ôl, h.y. prosiectau sydd wedi cychwyn / cwblhau eisoes, boed wedi talu amdanynt ai peidio
- Creu cronfa neu warged, i'w ddosbarthu a'i peidio
- Costau cysylltiedig â 'Throsglwyddo Asedau' (h.y. costau cyfreithiol, costau ymarferoldeb ac ati.) Er hynny, ar ôl trosglwyddo'r Ased, mae'r busnes sy'n gyfrifol ar ôl derbyn yr ased yn gymwys i wneud cais am grant o'r gronfa
- Nid yw costau craidd yn gymwys - ond mae adennill costau llawn ar gyfer prosiectau

## Llenwi'r ffurflen gais:

### Adran 1 a 2: Ynglŷn â'ch busnes

- Ble mae'ch busnes wedi'i gofrestru? A yw o fewn y maes budd?
- Pa fath o fusnes ydych chi? E.e. masnachwr unigol, cwmni cyfyngedig
- Beth yw strwythur eich busnes?
- Nifer y Gweithwyr?

### Adran 3: Ynglŷn â'ch Prosiect

- Dywedwch wrthym am eich prosiect. Beth ydych chi eisiau ei wneud? Pam yr ydych chi eisiau ei wneud? Os byddwch yn ymgymryd â'r prosiect, pa wahaniaeth fydd yn ei wneud i'ch busnes, cyflogaeth, eich cymuned, yr amgylchedd?
- Dim ond drwy ddatgan yn glir beth rydych eisiau ei wneud fydd y panel yn deall eich prosiect yn iawn.
- Mae'n rhaid i chi dynnu sylw at fanteision y cynllun arfaethedig. Dim ond wedyn y gellir asesu eich cais o ran gwerth am arian.
- Peidiwch ag anghofio bod yn realistig am eich dyddiadau dechrau a gorffen. Yn aml iawn mae materion fel gwaith cynllunio a strwythurol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.
- Cewch ysgrifennu mewn paragraffau, pwyntiau bwled neu barhau ar ddalen arall o bapur. Ceisiwch fod yn gryno a chadw at y prif bwyntiau.
- Pa dystiolaeth sydd gennych chi bod angen y prosiect? Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn? Sut byddai'r cyllid hwn yn eich helpu chi i gyrraedd eich nôd?
- Pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud? (e.e. prynu offer newydd yn eich galluogi i ehangu'r busnes, neu fydd y prosiect yn eich galluogi i ail agor adeilad diangen, bydd y prosiect yn creu swyddi newydd, ac ati.)

### Adran 4: Manylion Ariannol

- Mae'r adran hon yn delio â chostau'r prosiect.
- Bydd angen 3 dyfynbris ar gyfer unrhyw eitem dros £5,000 a 1 dyfynbis am eitemau o dan £5,000
- Dylech restru pob eitem / elfen rydych yn ceisio cyllid ar ei chyfer.
- Cofiwch gynnwys y gost net, y TAW a chyfanswm y gost.
- Nodwch yn glir a yw eich sefydliad yn gallu adfer y TAW.
- Os ydych yn bwriadu adfer y TAW, dim ond cost net pob eitem ddylech ei nodi.
- Rhestrwch yr holl gyllidwyr / cyllidwyr posib eraill, wedi neu heb eu cadarnhau, a'r swm yr ydych wedi gwneud cais amdano ganddynt.
- Yn olaf, ar waelod yr adran hon, nodwch faint o grant rydych chi'n gwneud cais amdano.

## Ceisiadau

Yn ychwanegol i'r uchod, bydd yn ofynnol i fusnesau sy'n ceisio cyllid gyflwyno'r canlynol fel rhan o'r cais:

- Cynllun busnes 3 blynedd a rhagolwg ariannol
- Cyllid Cyfatebol
  - Mae ceisiadau rhwng £1,000 a £10,000 yn gofyn am o leiaf 10% o gyllid cyfatebol
  - Mae ceisiadau dros £10,000 yn gofyn am o leiaf 30% o gyllid cyfatebol
- Cyfrifon blynyddol (os yw busnes dros flwydd oed)
- 3 mis o ddatganiadau banc diweddaraf y busnes neu 3 mis o ddatganiadau banc personol os yn 'start up'
- Rhaid cyflwyno unrhyw ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeiladau rhestredig gyda'r cais (os yn berthnasol)
- Rhaid cyflwyno dogfen brydles neu ddogfennau perchnogaeth (Cofrestrfa Tir) gyda'r cais (Os yw'n berthnasol)

## Gwybodaeth ychwanegol

- Yr uchafswm grant y gellir gwneud cais amdano i gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yw **£35,000 dros gyfnod o 3 blynedd** OND mi allwn ystyried ceisiadau mwy mewn sefyllfaoedd arbennig o fewn parth 1 (Cysylltwch rheolwr y gronfa i drafod.)
- Rhaid i chi sicrhau bod gennych yswiriant perthnasol ar gyfer yr eiddo / offer hyd at ei werth ailosod neu ailosod llawn yn erbyn pob risg yswiriadwy gyda chwmni yswiriant ag enw da ac mewn achos o ddifrod neu golled o offer/eiddo, adfer neu ddisodli i foddhad Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yr holl asedau sydd wedi cael cymorth grant gan ddefnyddio arian yswiriant o'r fath.
- Nid oes gennych unrhyw ymgyfreitha na chyflafareddu yn gyfredol nac yn yr arfaeth neu, hyd y gwyddoch, fod bygythiad wedi neu gallai gael effaith andwyol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un o'r rhwymedigaethau a gynhwysir yn y canllawiau hyn.

### Ad-dalu Cyllid

- Os bydd un neu fwy o'r canlynol yn digwydd efallai y bydd gofyn i chi ad-dalu'r grant yn y gyfran a nodir isod: -
  - (i) Nid ydych wedi defnyddio'r Cyllid at y dibenion penodedig perthnasol y cyfeirir atynt yn y cais
  - (ii) Rydych wedi bod yn euog o gamliwio mewn cysylltiad â'r cais
  - (iii) Gwnaed newid yn nefnydd yr eiddo neu'r offer o'r hyn a gymeradwywyd ar gyfer cymorth grant heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog
  - (iv) Yn ystod y cyfnod o 3 blynedd o'r dyddiad y talwyd y grant, mae'r busnes yn peidio â masnachu neu nid yw bellach wedi'i leoli yn ardal budd y gronfa.
  - (v) Yn ystod y cyfnod o 3 blynedd o'r dyddiad y talwyd y grant, gwerthir yr offer a ariennir.

- **Y cyfnod y mae digwyddiad yn digwydd a chyfran y grant i'w ad-dalu**

  - O fewn blwyddyn: Ad-dalu'r Grant yn Llawn
  - O fewn 2 flynedd: 50% o'r Grant i'w ad-dalu
  - O fewn 3 blynedd: 20% o'r Grant i'w ad-dalu
  - Ar ôl 4 blynedd: Dim ad-daliad Grant

**Gwybodaeth angenrheidiol:**

- Mae Cronfa Fferm wynt Coedwig Clocaenog yn ariannu prosiectau cyfalaf â refeniw.
- Mi fydd angen canlyniadau mesuradwy o'ch prosiect
- Gofynnir i fusnesau gyflwyno'r wybodaeth atodol ganlynol:
  - Unrhyw bolisiau perthnasol e.e. Iaith, Cyfle Cyfartal, Diogelu
  - Dyfyniadau neu amcangyfrifon ysgrifenedig
- Bydd hyblygrwydd ynglŷn â sut y bydd y cyllid yn cael ei rannu OND **ni ddylai unrhyw gais cryf sy'n dangos gwerth am arian o Barth 1** fethu ar draul ceisiadau o Barthau 2 a 3.
- Bydd pob cais yn cael ei gysidro yn ôl ei deilyngdod ei hun.

**Wedi i chi dderbyn cynnig grant:**

Mi fyddwn yn anfon llythyr i'r un a enwir fel prif gyswllt yn amlinellu penderfyniad y panel yngymghorol. Bydd angen i'r prif gyswllt arwyddo un copi o'r llythyr / cytundeb a'i yrru yn ol i CGGC. Mae'n bwysig i chi gadw copi ar gyfer eich cofnodion chi. Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi gytuno i'r canlynol:

- Cyflwyno anfonebau / derbynebau am yr holl wariant
- Cyflwyno adroddiadau yn unol â phob cais (bydd y rhain yn cyfateb i faint a chymhlethdod eich prosiect)
- Defnyddio'r arian yn union fel y nodwyd yn eich cais oni bai eich bod wedi trafod a derbyn caniatad ymlaen llaw gan CGGC
- Rhoi cyhoeddusrwydd i Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog ar holl gyhoeddiadau prosiect, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol (@ClocaenogCF)

## **COFIWCH SIARAD GYDA RHEOLWR Y GRONFA NEU SWYDDOG YN CGGC CYN CYFLWYNO'CH CAIS**

### DIOGELU DATA AC AWDURDODI DEFNYDD

Bydd Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC), sydd yn gweithredu ar ran Cronfa Buddsoddiad Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, yn defnyddio'r wybodaeth yn eich dogfen ymgeisio, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i brosesu eich cais am gyllid. Mae hyn yn cynnwys rhannu'r wybodaeth yn llawn gyda'n partneriaid yn Cadwyn Clwyd, Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy ynghyd a'ch cynghorydd busnes dewisiol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi mewn bas data sy'n cael ei ddefnyddio gan CGGC a'i bartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (mae rhagor o wybodaeth a'n hysbysiad preifatrwydd ar gael yn thirdsectorsupport.wales). Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw am gyfnod eich prosiect Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, ac wedyn bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel

CRONFA FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG
CLOCAENOG FOREST WIND FARM FUND

**<u>Map o’r ardal budd: (Map rhyngweithiol:</u>**
**[https://rwegisportal.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=cd36ab4e0416439890f2d0401351ee25](https://rwegisportal.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=cd36ab4e0416439890f2d0401351ee25)**

